

CYNGOR TREF PORTHMADOG



Cofnodion Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Gorffennaf 11 2023

Presennol : Cynghorwyr :- Alwyn Gruffydd, John Gwynedd Roberts, Aled Griffith (Cadeirydd), Michael Roberts, Gwilym Jones, Connor Westwood, Sandra Bodden Jones, Carol Hayes Marian Roberts (Clerc)

75.7.23 Ymddiheuriadau: Cynghorwyr :- Dr Melfyn Edwards, Llinos Murphy, Llywelyn Rhys

76.7.23 Adroddiad y Cadeirydd.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod olaf cyn gwyliau'r haf a dechreuodd y Cadeirydd ei Adroddiad trwy longyfarch Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Madog ar eu llwyddiant yn trefnu ac yn ennill y Rali a gynhaliwyd yn ddiweddar ar fferm Llystyn Ganol. Roedd yn dymuno'r gorau i bawb sydd wedi sefyll arholiadau yn ddiweddar ac yn dymuno pob llwyddiant iddynt i'r dyfodol. Roedd hefyd yn estyn ei gydymdeimlad at deuluoedd sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Roedd yn croesawu gweld busnesau newydd ar y Stryd Fawr ac yn gwerthfawrogi eu defnydd o arwyddion dwy-ieithog. Roedd hefyd yn canmol y baneri sydd wedi eu gosod ar rai o siopau'r dref. Bydd mwy o waith eto cyn bydd y broses wedi gorffen. Diolchodd i'r Clerc am drefnu. Dywedodd mai 4 wythnos yn unig sydd tan yr Eisteddfod ym Moduan ac roedd yn dymuno pob llwyddiant iddi. Braf yw gweld y dref yn cael ei addurno ar gyfer y Brifwyl a diolchodd i bawb sydd wedi ymwneud â'r fenter.

Cyfeiriodd at Lwfans y Cadeirydd ar gyfer y flwyddyn 2023-24. Mae wedi penderfynu rhoi cyfraniad o'i lwfans i Gyfeillion y dair ysgol gynradd leol i ddiolch iddynt am eu gwaith yn creu gweithiau celf er mwyn harddu'r ardal ar gyfer yr Eisteddfod. Gorffennodd trwy ddiolch i'r Cynghorwyr am eu gwaith caled dros y flwyddyn ddiwethaf ac i ddymuno'n dda iddynt dros y seibiant tan y cyfarfod nesaf ym mis Medi.

77.7.23 Cadarnhau cywirdeb cofnodion :- Cyfarfod Llawn Mehefin 13 2023

Cafwyd cywiriad gan Cyng Alwyn Gruffydd i un cymal yn Adroddiad y Cadeirydd :-

“ nad dyma'r ymddygiad a ddisgwylir gan heddweision nac unrhyw un arall yn ardal Porthmadog.”

Yn dilyn y cywiriad cafwyd y Cofnodion yn gywir yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Cyng John Gwynedd yn eilio.

78.7.23 Cyfle i'r Cynghorwyr ddatgan diddordeb.

Dim datganiad o ddiddordeb.

79.7.23 CEISIADAU CYNLLUNIO

Dim cais wedi dod i law.

MATERION I'W DWYN GERBRON :-

80.7.23 Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2022-2023 (copi electronig 27 tudalen ynghlwm)

Penderfynwyd :- derbyn a chymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol.

Cymerodd yr Is-Gadeirydd, Cyng Alwyn Gruffydd y Gadair i arwain y cyfarfod ac i lywio'r trafodaethau ar y tri chynneg canlynol gan y Cadeirydd Cyng Aled Griffith :-

81.7.23 Cyng Aled Griffith :- cynnig gofyn i Gyngor Gwynedd am gynllun gwagio biniau, casglu sbwriel a glanhau ar gyfer strydoedd Ardal Porthmadog. (Gweler lluniau 1 o finiau

Porthmadog fore Sul Gŵyl y Banc 7.5.23)

Penderfynwyd :- gweithredu ar gynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Sandra Bodden Jones yn eilio.

82.7.23 Cyng Aled Griffith :- cynnig creu dyddiadur misol o ddigwyddiadau lleol er mwyn i Gynghorwyr wybod am y digwyddiadau ac i sefydlu cynrychiolaeth o'r Cyngor ymhob digwyddiad lleol.

Penderfynwyd :- tynnu'r cynnig yn ôl.

83.7.23 Cyng Aled Griffith :- cynnig gyrru llythyr i Cyngor Gwynedd i wneud cais i sefydlu maes pwrpasol i faniau teithiol yn ardal Porthmadog.

Mynegwyd siom nad oedd Porthmadog wedi cael ei gynnwys fel lleoliad addas i greu maes carafanau modur ond clywyd fel yr oedd carafanau modur yn parcio dros nos ym maes parcio'r Ganolfan heb rwystr o gwbl. Clywyd fel yr oedd pwyllgor y Ganolfan yn ymwybodol o'r broblem ac ar fin sefydlu system barcio "parking eye" i ddirwyo'r rhai sy'n parcio'n anghyfreithlon.

Yn wyneb y wybodaeth yma,

Penderfynwyd :- tynnu'r cynnig yn ôl.

Dychwelodd y Cadeirydd Cyng Aled Griffith i'r Gadair i lywio gweddill y cyfarfod.

84.7.23 Cyng Carol Hayes :- cynnig talu'r Ganolfan, Porthmadog am ddefnydd o'r Neuadd i redeg Clwb Ieuencid am awr a hanner yr wythnos o fis Medi 2023 tan fis Rhagfyr 2023.

Penderfynwyd :- gweithredu ar gynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Michael Roberts yn eilio.

85.7.23 Cyng Carol Hayes :- cynnig gweithredu i ddod o hyd i ymgeiswyr i lenwi'r pum sedd wag ar y Cyngor Tref.

Trafodwyd y trafferthion o gael aelodau newydd i'r Cyngor a chytunwyd fod sylwadau negyddol gan unigolion lleol sy'n difrio'r Cyngor Tref ar y cyfryngau cymdeithasol yn troi pobl yn erbyn y Cyngor ac yn amharu ar y broses o ddenu cynghorwyr newydd. Cytunwyd ar syniad Cyng Carol Hayes i ganfasio trigolion ward Ynys Galch trwy lythyr wedi ei baratoi gan y Clerc, er mwyn denu aelodau newydd.

Penderfynwyd :- gweithredu ar y cynnig a meddwl am syniadau er mwyn adrodd yn ôl ym mis Medi yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Sandra Bodden Jones yn eilio.

86.7.23 Cyng Gwilym Jones :- cynnig gwneud cais i Gyngor Gwynedd i atgyweirio mainc goffa John Charles ar y Cob Crwn. (gweler lluniau 2.)

Penderfynwyd :- gweithredu ar gynnig Cyng Gwilym Jones , Cyng Carol Hayes yn eilio.

87.7.23 Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf. Dyddiad cau Rhaglen Medi 12 2023 = Medi 2 2023 , (Rheolau Sefydlog 8.1 " o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor".)

- **Cyng Alwyn Gruffydd** :- cynnig holi Esgobaeth Bangor a'r Eglwys yng Nghymru beth yw dyfodol adeilad Eglwys Sant Ioan a'r beddi yn y fynwent.

88.7.23. Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb (copi ynghlwm).

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth ac ail-yrru pob gohebiaeth na chafwyd ymateb iddo hyd at 14.4.23.

GOHEBIAETH :

89.7.23 BLACK ROCK BEACH CLUB, Ymateb i 35.5.23 cais i dderfnyddio'r hen enw

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth.

90.7.23 CYFOETH NATURIOL CYMRU, Ymateb i 21.5.23 Garreg Wen

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth.

91.7.23 FRANCES TAYLOR, Digwyddiad Pensyflog

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth.

92.7.23 IOLA PARRY, Ysgolion Bro

Oherwydd nad oedd byrdrwn yr ebost yn eglur i'r Cynghorwyr,

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth a gwahodd Iola Parry i drafod y cynllun mewn mwy o fanylder yng nghyfarfod mis Medi yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Michael Roberts yn eilio.

93.7.23 PAULINE WILLIAMS, Ymateb i gais i osod vinyls ar ffenestr y Ganolfan

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth.

94.7.23 GWENLLIAN CARR, Diolch gan yr Eisteddfod

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth.

95.7.23 GWENAN MAI ROBERTS C.G.

“ ”, Ymateb i 21.5.23 Garreg Wen

Ail ymateb i 21.5.23 Garreg Wen

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth.

96.7.23 LLYWODRAETH CYMRU, Bil Seilwaith Cymru 2023

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth.

97.7.23 AWEN BAYLEY C.G., Ymateb i 38.5.23 gosod bwrdd gwybodaeth ar y Garth

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth.

98.7.23 DELYTH LOWE C.G., Ymateb i 74.6.23 Amseriad Ceisiadau Cynllunio

Mynegwyd siom yn ymateb Delyth Lowe am bod ei hymateb yn mynd yn groes i egwyddorion Cyngor Gwynedd o fod yn gynhwysol, yn ddemocrataidd ac yn gynaliadwy. Cytunwyd y dylid ymateb fel corff i bob cais cynllunio a bod ei hawgrym yn mynd yn groes i ysbryd Llywodraeth leol. Mae Deddf Llesiant ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn cadarnhau bod yn rhaid i gynghorau Cymuned gydweithio â Chyngor Gwynedd ond mae hyn yn mynd yn groes i hynny.

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu'n ôl i fynegi'r safbwyntiau uchod ac i atgoffa Cyngor Gwynedd o'u cyfrifoldeb i fod yn gynhwysol, yn ddemocrataidd ac yn gynaliadwy yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Carol Hayes yn eilio.

Cytunwyd hefyd y byddai'r Cynghorwyr yn gyrru eu penderfyniad yn ôl i'r Clerc ar unrhyw gais cynllunio a dderbynir rhwng rwan a mis Medi fel y gall y Clerc yrru ymateb y Cyngor fel corff yn ôl i'r Adran Cynllunio.

99.7.23 LLYWODRAETH CYMRU, Ymgynghoriad Caffael Cyhoeddus

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth.

100.7.23 DAVID CHARLES C.G., Ymateb i 62.6.23 harddu ar gyfer yr Eisteddfod

Croesawyd ymateb David Charles a

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth.

101.7.23 CATRIN HUWS, Ymateb i 68.6.23 cynllun Peilot Dwyfor

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth ac roedd y Cyng Carol Hayes yn dymuno cofnodi ei bod yn croesawu yn fawr iawn sylwadau Catrin Huws ynglyn â Melin yr Wyddfa a'r ffaith fod gwaith datblygu Melin yr Wyddfa yn mynd yn ei flaen o'r diwedd.

102.7.23 ALYS LLOYD JONES C.G., Diweddariad ar y cynllun vinyls

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth.

103.7.23 RHIAN GEORGE C.G., Cynllun Creu Lleol Porthmadog

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu'n ôl i ddweud y byddai'r Cadeirydd, Cyng Aled Griffith yn fodlon cynrychioli'r Cyngor Tref ar y grŵp llywio.

104.7.23 MERYL GREEN, Cais i symud mainc Eglwys St Ioan i Bryn Coffa (llun 3)

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu'n ôl i gefnogi'r cais i symud y fainc goffa o safle Eglwys Sant Ioan i safle Bryn Coffa ac i nodi na fyddai'r Cyngor Tref yn gyfrifol am drefnu nac ychwaith am ariannu hyn.

105.7.23 DERYCK EVANS, Archwiliad allanol 2021-22 wedi cwblhau (copi electroneg yn unig)

Roedd y Clerc yn dymuno cofnodi bod y Cyngor Tref yn cael Archwiliad Llawn gan Archwilwyr Cymru ar gyfer 2022-23.

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth.

106.7.23. MATERION ARIANNOL :

Derbyniadau :

CAE PAWB	Rhent tenantiaid	£	30.00
CMA-FISHER/PENTIR	Arolwg Cae Bodawen National Grid	£	250.00
H.S.B.C.	Llog Banc Mai / Mehefin 2023	£	42.34

Awdurdodwyd y taliadau canlynol yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng John Gwynedd Roberts yn eilio:-

1	Marian Roberts	LLinell Ffôn a Wê Mehefin 2023	£	59.44
2	Marian Roberts	Cyflog Clerc Mehefin 2023	£	975.10
3	Cyllid a Thollau ei Fawrhydi	Treth Incwm cyflog Clerc Mehefin 2023	£	243.78
4	Marian Roberts	Ad-daliad Inc Du a lliw	£	34.97
5	Marian Roberts	Ad-daliad 2 gan dyfrio	£	6.50
6	Gardencraft	Ail lenwi'r tybiau blodau	£	45.00
7	Snowdonia Design and Print	Vynyls Eisteddfod Cae Bodawen	£	356.40
8	Aled Griffith	Lwfans Cadeirydd 2023-2024	£	1,200.00
9	Cyllid a Thollau ei Fawrhydi	Treth Incwm Lwfans Cadeirydd 2023-2024	£	300.00
10	Marian Roberts	Ad-daliad am 16 stamp 2il ddsbarth	£	12.00
11	Snowdonia Design and Print	2 x Correx Premier Inn - Eisteddfod	£	261.60
12	Marian Roberts	Ad-daliad tanysgrifiad AVG 2023-24	£	79.99
13	C.D.Jones	Torri a chippio coeden pîn Cae Pawb	£	350.00
14	Cyngor Gwynedd	Gwasanaeth toiledau cyhoeddus 2023-24	£	8,000.00
15	Y Ganolfan	Cyfarfod mis Mehefin 2023	£	40.00

(Mae copi o bob sic ar gael i'w harchwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

Daeth y cyfarfod i ben am 20.25

Marian Roberts
(Clerc)
14.7.23

